# Cymorth ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid: Blaenoriaethau a Ffurf Darpariaeth yn y Dyfodol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Crynodeb o'r Ymchwil | Ymchwil gymdeithasol | Rhif: 20/2014

Comisiynwyd y gwaith ymchwil hwn i adolygu'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfranogiad tenantiaid. Mae Llywodraeth Cymru, ers peth amser, wedi rhoi cyllid grant craidd i ddau sefydliad gwahanol er mwyn iddynt ddarparu cymorth i denantiaid, yn ogystal â chyllid grant ar gyfer prosiectau penodol. Er mwyn sicrhau gwerth am arian, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio deall pa gymorth y gellir ei ddarparu ar lefel leol a sut y gallai blaenoriaethau gael eu hariannu yn y dyfodol.

## 1 Canfyddiadau Allweddol:

### Cyllid ar gyfer cyfranogiad tenantiaid

1.1 Yng Nghymru, buddsoddwyd llawer o arian mewn cyfranogiad tenantiaid ar lefel genedlaethol a lleol yn y blynyddoedd diweddar.

1.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid craidd o £275,000 i TPAS Cymru a £205,000 i Denantiaid Cymru yn 2013/14.

1.3 Mae'r Cynllun Grant Grymuso Tenantiaid wedi'i atal tra'n disgwyl canlyniad yr adolygiad hwn, ond fe'i darparwyd ar lefel o £150,000 y flwyddyn yn y blynyddoedd diweddar.

1.4 Mae cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol yn ariannu ystod eang o weithgareddau cyfranogiad tenantiaid eu hunain ar wahân.

### Y fframwaith rheoleiddio

1.5 Ers y cylch cyllido diwethaf, mae'r amgylchedd gweithredu wedi newid ar gyfer cymdeithasau tai a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Erbyn hyn, caiff cyfranogiad tenantiaid ei hyrwyddo a'i ddiogelu ar gyfer cymdeithasau tai a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol gan Fframwaith Rheoleiddio Llywodraeth Cymru, sy'n mynnu eu bod yn gweithio gyda'u tenantiaid a'u defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio ac asesu ansawdd gwasanaethau.

1.6 Caiff awdurdodau lleol eu rheoleiddio gan Swyddfa Archwilio Cymru, ond nid yw canlyniadau cyfranogiad tenantiaid yn ddarostyngedig i unrhyw gyfundrefn reoleiddio neu arolygu. Mae gofynion awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar denantiaid yn lleisio'u barn ar faterion sy'n destun ymgynghoriad gan yr awdurdod.

**Adeiladu ar gynnydd**

1.7 Mae ystod o randdeiliaid yn cytuno bod mabwysiadu, hyrwyddo a chefnogi cyfranogiad tenantiaid wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, a bod egwyddor cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn gwneud penderfyniadau am wasanaethau yn cael ei derbyn ar draws y sectorau tai cymdeithasol a chyhoeddus.

1.8 Mae Panel Cynghori Tenantiaid wedi'i sefydlu bellach sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol, ond mae ei gwmpas wedi'i gyfyngu i hysbysu Bwrdd Rheoleiddio Cymru am faterion yn ymwneud â thenantiaid landlordiaid cymdeithasau tai yn unig (ac nid rhai awdurdodau lleol).

**Cymorth ar gyfer cyfranogiad effeithiol**

1.9 Y farn gyffredinol ymhlith yr ymarferwyr a fu'n ymwneud â'r gwaith ymchwil hwn yw bod angen cymorth ar denantiaid i gyfrannu'n effeithiol, a bod angen corff annibynnol a dibynadwy arnynt i'w helpu. Mae rhai rhanddeiliaid o'r farn bod buddsoddiad ehangach mewn sgiliau, hyder a chynyddu capasiti yn hollbwysig i gyfranogiad effeithiol.

1.10 Roedd nifer o'r rhanddeiliaid a gyfwelwyd yn ystod yr ymchwil yn credu'n gryf y dylai un sefydliad ddarparu ystod o wasanaethau cyfranogiad tenantiaid, o eiriolaeth i hyfforddiant i hwyluso. Dylid nodi, fodd bynnag, nad oes sefydliad o'r fath yn bodoli yn yr Alban nac yn Lloegr.

1.11 Roedd y rhanddeiliaid yn ymwybodol bod rhwystrau'n bodoli (yn yr Alban, Lloegr neu Gymru) rhag cael un sefydliad ar gyfer tenantiaid, fel yr angen i sefydliadau presennol gyfuno neu gydweithio mewn trefniadau grŵp

neu bartneriaeth gwahanol, a'r 'cydweddoldeb diwylliannol' rhwng y sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaethau hynny.

1.12 Mynegodd y rhai a gyfwelwyd o'r Panel Cynghori Tenantiaid rwystredigaeth ynglŷn â'r ffaith fod ystod o sefydliadau tenantiaid – nid dim ond TPAS a Thenantiaid Cymru – nad ydynt yn rhannu arfer da a gwybodaeth yn agored.

**TPAS a Thenantiaid Cymru**

1.13 Mae canfyddiadau'r ymchwil yn awgrymu bod gwaith TPAS a Thenantiaid Cymru wedi'i werthfawrogi gan randdeiliaid yn y sector.

1.14 Roedd llawer o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn yn cwestiynu pam mae angen dau sefydliad i gefnogi cyfranogiad tenantiaid, a thybir bod y ddau sefydliad yn cystadlu yn erbyn ei gilydd. Ceir tystiolaeth o orgyffyrddiad rhwng TPAS a Thenantiaid Cymru.

1.15 Fodd bynnag, roedd bron pob un o'r rhanddeiliaid yn cydnabod bod gwahaniaeth eglur rhwng hunaniaeth a diben y ddau sefydliad.

1.16 Er bod y ddau sefydliad yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar ystod o weithgareddau a wneir, ychydig o dystiolaeth sydd o ganlyniadau'r gweithgareddau hyn. Gallai Llywodraeth Cymru wella'r fanyleb ynglŷn â'r canlyniadau y mae'n eu ceisio.

**Sefydliadau eraill sy'n ymgysylltu â dinasyddion a thenantiaid**

1.17 Cyfeiriodd sawl un o'r rhanddeiliaid at y posibilrwydd o ehangu'r gefnogaeth ar gyfer ymgysylltu, cyngor a chymorth a broceru annibynnol o ran ymgysylltu â gwasanaethau, a pheidio â gosod tai cymdeithasol ar wahân (er y byddai hyn wedi ehangu'r astudiaeth hon y tu hwnt i'w brîff). Roeddent yn herio monopoli canfyddedig Tenantiaid Cymru a TPAS.

**Grant Grymuso Tenantiaid**

1.18 Mae'r dystiolaeth o'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu cefnogaeth gymysg ar gyfer parhau â'r cynllun Grant Grymuso Tenantiaid. Mae gan Grantiau Grymuso Tenantiaid ledaeniad da yn ddaearyddol ac yn thematig, ac ystyrir eu bod yn annog arloesedd ac yn helpu tenantiaid i edrych tuag allan.

1.19 Fodd bynnag, ceir beirniadaeth y gall ansawdd allbynnau Grant Grymuso Tenantiaid fod ar sail yn '*hap a damwain*' ac y gallant greu cynlluniau

gweithredu afrealistig y gallai sefydliadau fod yn amharod i ymrwymo iddynt, a theimlwyd hefyd eu bod yn agored i gael eu harwain gan staff yn hytrach na thenantiaid.

**Rôl landlordiaid**

1.20 Roedd yr holl rai a gyfwelwyd yn rhan o'r gwaith ymchwil hwn o'r farn mai cyfrifoldeb landlordiaid oedd cydweithredu â thenantiaid ar lefel leol (gan gynnwys rhoi adborth ar ganlyniadau).

**Rôl Llywodraeth Cymru**

1.21 Roedd llawer o'r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn (ac a oedd yn gweithio y tu allan i Lywodraeth Cymru) yn ansicr ynghylch y weledigaeth neu'r strategaeth genedlaethol o ran cyfranogiad tenantiaid.

1.22 Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gyfwelwyd yn cefnogi rôl Llywodraeth Cymru o ran monitro effeithiolrwydd cyfranogiad tenantiaid mewn cymdeithasau tai a chwmnïau cymunedol cydfuddiannol trwy'r Fframwaith Rheoleiddio.

1.23 Cyfeiriodd nifer fach o randdeiliaid at anhawster ymsefydlu cyfranogiad tenantiaid effeithiol yn y sector awdurdodau lleol yn absenoldeb cyfundrefn reoleiddio neu arolygu ar gyfer gwasanaethau tai.

1.24 Roedd y rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn o'r farn bod gan Lywodraeth Cymru rôl o ran ariannu gwaith partneriaeth yn ymwneud â chymorth i denantiaid a digwyddiadau a chymariaethau traws-sector sy'n galluogi rhannu arfer da a dysgu.

1.25 Roedd ystod amrywiol o randdeiliaid o'r farn bod angen i Lywodraeth Cymru barhau i ddarparu arweinyddiaeth strategol o ran hyrwyddo cyfranogiad tenantiaid. Ar gyfer y rhan fwyaf o randdeiliaid, mae'r pwyslais parhaus hwn yn golygu bod angen cyllid parhaus i ddarparu cymorth annibynnol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid, ond gan symud oddi wrth ymyriadau lleol (y mae'n well iddynt gael eu hariannu gan landlordiaid eu hunain) i fentrau rhanbarthol a chenedlaethol.

1.26 O'n cyfweliadau â rhanddeiliaid o Lywodraeth Cymru, mae'r tîm ymchwil yn dod i'r casgliad mai'r blaenoriaethau o ran darparu cymorth ar gyfer cyfranogiad tenantiaid yn y dyfodol yw:

- Helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i ffurfio gwasanaethau cysylltiedig â thai
- Rhannu a hyrwyddo arfer da o ran cyfranogiad tenantiaid
- Gallu ymgynghori â thenantiaid ar faterion yn ymwneud â pholisi tai (cydnabuwyd hyn gan randdeiliaid eraill hefyd, e.e. aelodau'r Panel Cynghori Tenantiaid ac ymatebwyr i'r arolwg Prif Weithredwyr)
- Buddsoddi arian mewn cychwyn mentrau, gyda'r nod o helpu'r rhain i ddod yn hunangynhaliol.

**Y dyfodol**

1.27 Roedd nifer o'r rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â'r gwaith ymchwil hwn yn awyddus i Lywodraeth Cymru ymgymryd â rôl arweinyddiaeth mewn dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Roedd rhai yn mynnu eglurder gan Lywodraeth Cymru o ran i ba raddau yr oedd yn dymuno datblygu ymgysylltiad â dinasyddion.

1.28 Cyfeiriodd rhai o'r rheiny a gyfwelwyd at heriau'r amgylchedd gweithredu presennol o ran diwygiadau lles, costau byw a fforddiadwyedd, gan awgrymu y byddai hyn yn arwain at fwy o dyndra yn y berthynas rhwng landlordiaid a thenantiaid.

1.29 Rhoddwyd pwyslais cryf ar gymorth yn y dyfodol ar gyfer cynhwysiant – yn enwedig cynhwysiant digidol, yn ogystal â chynhwysiant o ran arian ac iechyd. Amlygwyd cyflogaeth a hyfforddiant yn flaenoriaeth hefyd.

1.30 Roedd y rhanddeiliaid yn cydnabod twf y sector rhentu preifat – ac roedd rhai o'r farn y dylid datblygu capasiti a llais tenantiaid yn y sector hwnnw. Ceir pryderon ynghylch pa un a oes gan sefydliadau presennol y capasiti i wneud hyn. Roedd rhai o'r farn y dylai camau i gefnogi llais tenantiaid ar lefel strategol (yn debyg i sut y mae gan denantiaid cymdeithasau tai gorff sy'n gweithredu ar lefel genedlaethol ar ffurf y Panel Cynghori Tenantiaid) ymestyn i landlordiaid awdurdodau lleol hefyd.

1.31 Canfu'r gwaith ymchwil hwn y disgwylir i Lywodraeth Cymru arwain ar gymhwyso cydraddoldeb ac amrywiaeth i ymgysylltu â thenantiaid. Mae angen cymorth o hyd er mwyn sicrhau bod proffil y tenantiaid sy'n cymryd rhan yn adlewyrchu proffil tenantiaid ehangach unrhyw landlord tai cymdeithasol.

**Cyllid gan y llywodraeth**

1.32 Ar lefel weithredol, mae awdurdodau lleol a chymdeithasau tai eisoes yn ystyried eu bod yn ariannu cyfranogiad tenantiaid. Maent o’r farn bod hyn yn rhan allweddol o’u hymagwedd fusnes.

1.33 Roedd bron pob un o’r rhanddeiliaid a gymerodd ran yn y gwaith ymchwil hwn o’r farn ei bod yn bwysig diogelu ffynhonnell ariannu y tu allan i gyllidebau landlordiaid ar gyfer cyngor annibynnol.

1.34 Roedd sawl un o’r rhanddeiliaid o’r farn bod trefniadau gweithredu presennol sefydliadau seiliedig ar denantiaid yn gostus ac yn aneffeithlon (er na roddwyd llawer o dystiolaeth i gefnogi hyn, ac roedd yn canolbwyntio’n bennaf ar orgyffyrddiad o ran cyfrannu at bolisïau neu gynadleddau niferus). Mynegwyd hefyd y gallai sefydliadau eraill fod yn darparu gwasanaethau cefn swyddfa, neu y gallai rhai o’r sefydliadau dan sylw sefydlu strwythur grŵp i annog cydweithredu a rhannu costau.

**Syniadau eraill**

1.35 Ychydig iawn o syniadau a gynigiwyd ynglŷn â threfniadau neu ffynonellau ariannu eraill: roedd y rhan fwyaf o’r syniadau hyn yn canolbwyntio ar sefydliadau’n cydweithio’n fwy effeithiol, ond awgrymodd dau sefydliad y posibilrwydd o godi arian o landlordiaid tai cymdeithasol trwy system ardollau. Mynegwyd pryder y byddai angen i unrhyw system ardollau ddangos budd uniongyrchol a gwirioneddol i denantiaid. Mae awduron y gwaith ymchwil wedi amlygu anfanteision gweinyddol hefyd.

1.36 Cynigiodd un rhanddeiliad y gallai Llywodraeth Cymru hybu ei gweledigaeth ar gyfer cyfranogiad tenantiaid effeithiol trwy wneud hynny’n amod ar gyfer rhai mathau o gyllid a ddynodwyd yn benodol ar gyfer dibenion eraill (e.e. lwfansau atgyweiriadau mawr), ac y byddai hyn yn helpu i hybu cyfranogiad yn y sector awdurdodau lleol.

1.37 Awgrymodd rhanddeiliad arall y gellid gofyn i gwmnïau’r sector preifat (cwmnïau adeiladu/cynnal a chadw mawr sydd â chysylltiad hir â’r sector tai cymdeithasol) ddarparu cymorth ar gyfer hyfforddi tenantiaid, gan fod y symiau ariannol sydd eu hangen yn fach o gymharu â chyllidebau’r mathau hyn o sefydliadau.

1.38 Roedd dau randdeiliad o’r farn bod cwmpas y gwaith ymchwil yn rhy gul

gan ei fod wedi'i gyfyngu i sut y cefnogir cyfranogiad tenantiaid yn y sector tai cymdeithasol yn benodol (yn hytrach nag yn ehangach, er enghraifft yn y sector cyhoeddus). Roedd rhai o'r farn y bu'r ymarfer ymchwil yn gyfle a gollwyd i archwilio sut y cefnogir dinasyddion i ymgysylltu â chyrff cyhoeddus (a sut y cânt eu hariannu gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny).

## Casgliadau

1.39 Yn ein barn ni, mae rhai o gyflawniadau'r diwylliant cyfranogiad tenantiaid presennol yn y sector tai cymdeithasol yn dangos sut mae cymdeithas wedi newid, a sut yr ystyrir yn gynyddol ei bod yn 'synnwyr cyffredin' ac yn fusnes da i ymgysylltu â chwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth, boed hynny yn y sectorau cyhoeddus neu breifat.

1.40 Mae'r llwyddiannau hefyd yn adlewyrchu'r hyn y gellir ei gyflawni pan geir gweledigaeth a strategaeth eglur gan y Llywodraeth, fframwaith rheoleiddio, sefydliadau ar lawr gwlad sy'n gweithio'n ddiwyd dros nifer o flynyddoedd i lobïo ac ymgyrchu ynghylch amodau tai, a mathau eraill o sefydliadau'n gweithio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol trwy gynyddu sgiliau a hyder mewn sefydliadau ac ymhlith y bobl sy'n rhyngweithio â hwy. Mae llawer o wahanol fathau o sefydliadau wedi cyfrannu – yn genedlaethol ac yn lleol – at wella dewisiadau a disgwyliadau tenantiaid tai cymdeithasol (o leiaf) yn y blynyddoedd diweddar.

1.41 Pwysleisiodd y rhanddeiliaid fod y byd wedi newid ac nid rôl Llywodraeth Cymru yw monitro neu bennu'r hyn a ddylai ddigwydd ar lefel leol. Mae'n ymddangos at ei gilydd bod y weledigaeth ar gyfer cyfranogiad tenantiaid mewn gwasanaethau rheoli tai yn cael ei phriodoli i landlordiaid tai cymdeithasol fel eu dyletswydd hwy.

1.42 Mae'r adolygiad hwn yn rhoi cyfle strategol i Lywodraeth Cymru gamu'n ôl, llunio gweledigaeth newydd ar gyfer yr hyn y mae'n ceisio ei gyflawni ac annog partneriaid cenedlaethol a lleol i gyfrannu at helpu i'w gwireddu.

1.43 Mae'r rhanddeiliaid o'r farn mai cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru yw:

- cefnogaeth annibynnol ar gyfer cyfranogiad tenantiaid, ond cysyniad ehangach o gyfranogiad a chyfranogiad grŵp ehangach o bobl;
- eiriolaeth ar gyfer tenantiaid ar draws deiliadaethau;

- rhaglen hyfforddiant sy’n rhoi dilyniant i fywydau pobl; a
- ffyrdd o rannu dysgu a gwybodaeth mewn fforymau rhanbarthol a chenedlaethol.

1.44 Amlygodd y tîm ymchwil ystod o ddewisiadau ar gyfer trefniadau ariannu yn y dyfodol:

**Dewis Un**: Cadw’r sefyllfa bresennol a thorri cyllid i’r Grantiau Grymuso Tenantiaid (a weinyddir gan y Sefydliad Tai Siartredig), TPAS a Thenantiaid Cymru yn ôl eu cyfran.
**Dewis Dau**: Rhoi’r gorau i ariannu’r naill sefydliad neu’r llall neu’r cynllun grant.
**Dewis Tri**: TPAS a Thenantiaid Cymru i ffurfio perthynas waith agosach â’i gilydd.
**Dewis Pedwar**: TPAS a/neu Denantiaid Cymru i ffurfio perthynas waith agosach â sefydliadau eraill.
**Dewis Pump**: creu strwythur grŵp (neu gyfrwng cydwasanaethau) sy’n darparu cydwasanaethau i ystod o sefydliadau sy’n ymwneud â gwahanol fathau o weithgareddau cyfranogi ac ymgynghori.
**Dewis Chwech**: Llywodraeth Cymru i gyflwyno ystod o gontractau ar gyfer tendr yn 2015 ar gyfer y gweithgareddau allweddol y mae’n dymuno eu hariannu dros gyfnod o dair blynedd a rhoi’r gorau i ariannu grant craidd.

1.45 Mae Dewis 1 (torri cyllid yn ôl cyfran) yn fesur tymor byr priodol, ond nid yw’n cynnig gweledigaeth strategol, dim ond un ariannol.

1.46 O ran Dewis 2, mae’r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod saib parhaus yn y cynllun Grant Grymuso Tenantiaid yn ddewis synhwyrol, yn bennaf gan fod tystiolaeth yn dangos bod landlordiaid tai cymdeithasol yng Nghymru yn buddsoddi’n sylweddol mewn cyfranogiad tenantiaid ar hyn o bryd. Nid yw’r tîm ymchwil o’r farn bod torri cyllid i un sefydliad tenantiaid ar draul un arall yn ateb synhwyrol, oherwydd bod gan y ddau eu rhinweddau a’u cryfderau unigol eu hunain.

1.47 O ran Dewisiadau 3, 4 a 5, mae’n ddefnyddiol ystyried y rhain gyda’i gilydd, gan eu bod yn cynnig llwybr ar gyfer y dyfodol sydd o fewn rheolaeth cyrff eraill yn hytrach na Llywodraeth Cymru, a’r sefydliadau dan sylw sydd i benderfynu sut y dymunant ffurfio eu dyfodol. Mae canfyddiadau’r gwaith ymchwil wedi sefydlu bod llawer o randdeiliaid ar draws y sector am weld un sefydliad, sef canolfan sefydliadol (a ffisegol i rai) ar gyfer

ymgysylltu â dinasyddion, eu grymuso a'u haddysgu.

1.48 Ar hyn o bryd, nid yw'r tîm ymchwil yn gweld cyfle i TPAS Cymru a Thenantiaid Cymru gyfuno i greu un strwythur oherwydd nid yw'r lefel angenrheidiol o ymddiriedaeth a chyfatebiaeth o ran diben yn bodoli i gyflawni hyn; gallai cam cyntaf pwysig gynnwys datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

1.49 Mae Dewis 6 yn un dymunol am resymau negyddol – mae rhwystrau'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw un o'r dewisiadau (Dewisiadau 3-5) sy'n dibynnu ar barodrwydd neu awydd sefydliadau annibynnol i weithio'n wahanol – a rhai cadarnhaol, sef bod gan Lywodraeth Cymru gyfle i lunio gweledigaeth newydd ar gyfer cyfranogiad tenantiaid.

1.50 Mae gwersi i'w dysgu o brofiadau'r sefydliadau cymheiriaid yn yr Alban ac yn Lloegr, lle y mae'r Llywodraethau wedi sefydlu prosesau cynnig am gontractau sydd wedi arwain at waith partneriaeth.

1.51 Mae risgiau sylweddol yn debygol o wynebu TPAS Cymru a Thenantiaid Cymru o ganlyniad i doriadau mewn cyllid, er y gall y ffyrdd y byddant yn dewis datblygu perthnasoedd gweithio ar y cyd â'u partneriaid dewisedig helpu i liniaru'r rhain. Rhaid cofio ei bod yn cymryd amser i gynllunio a rheoli'r math hwn o newid sefydliadol.

1.52 Mae'r Tîm Ymchwil wedi cael ar ddeall bod TPAS a Thenantiaid Cymru eisoes wedi'u rhybuddio ymhell cyn yr adolygiad hwn bod toriadau ar ddod.

## Argymhellion

1.53 Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r astudiaeth hon, mae'r tîm ymchwil yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill ystyried y canlynol:

*Ar gyfer Llywodraeth Cymru*

- Cyflwyno toriadau cymedrol i'r cyllid sydd ar gael i TPAS a Thenantiaid Cymru o ddechrau mis Gorffennaf 2014 – byddai hyn yn caniatáu digon o amser i gynllunio'n gywir y newidiadau y byddai angen i'r sefydliadau eu gwneud (a'n dealltwriaeth ni o sefyllfa Llywodraeth Cymru yw nad oes ganddi ddewis ond gwneud rhai toriadau yn ystod y flwyddyn ariannol i ddod)
- Parhau i beidio ag ariannu'r cynllun Grant Grymuso Tenantiaid am y flwyddyn ariannol nesaf

- Ymgynghori â sefydliadau perthnasol er mwyn ymchwilio i ymarferoldeb a chanlyniadau posibl cynnig swm buddsoddi bach (dyweder hyd at £75,000), neu ganiatáu i sefydliadau wneud cais amdano, yn 2014-15 i archwilio gwaith partneriaeth agosach. Byddai partneriaid posibl yn gallu gwneud cais am gymorth adnoddau er mwyn datblygu trefniadau gweithio agosach i gydnabod rhwystrau yn ymwneud â chapasiti, ac i helpu i ysgogi arloesedd ac archwilio'r weledigaeth ehangach a sbardunir gan randdeiliaid
- Ystyried posibiliadau ac archwilio ymhellach werth cynnal ymgynghoriad â landlordiaid tai cymdeithasol – cymdeithasau tai ac awdurdodau lleol sy'n cadw stoc – ynglŷn â system ardollau i gyfrannu at sefydliad eirioli ac ymgyrchu ar gyfer tenantiaid
- Gweithio gyda phartneriaid (fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Tai Cymunedol Cymru, y Sefydliad Tai Siartredig, Arweinyddiaeth Tai Cymru ac eraill) i sefydlu'n eglur strategaeth dair blynedd a phwyslais ar gyfer cyfranogiad tenantiaid o'r flwyddyn 2015 ymlaen. Gallai hyn gynnwys rhoi'r gorau i geisio darparu cyllid grant craidd i sefydliadau ac, yn lle hynny, trefnu proses gaffael ar gyfer gwasanaethau, a fyddai'n helpu i sbarduno arloesedd, gwaith partneriaeth rhwng sefydliadau a chynghreiriau a strwythurau posibl eraill. Yn ddelfrydol, dylai'r holl sefydliadau a ariennir gan grant craidd sydd â rhyw fath o gylch gorchwyl 'cyfranogiad' gael eu cynnwys yn yr ystyriaeth hon o gaffael gwasanaethau'n ehangach.

*Ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Panel Dysgu a Datblygu*

- Ceisio cymorth gan y Panel Dysgu a Datblygu, sy'n rhan o Fwrdd Rheoleiddio Cymru, i lunio'r fanyleb ar gyfer rhai o'r gwasanaethau cytundebol, os dewisir y dull hwn o weithredu
- Gosod pwyslais eglur ar ganlyniadau (fel rhan o'r meini prawf llwyddiant) ar gyfer unrhyw gontractau sydd i'w cynnig.

*Ar gyfer Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru*

- Nodi sut y gallai llais strategol ar gyfer preswylwyr o'r sector awdurdodau lleol fwydo i gorff

sy'n dal perfformiad awdurdodau lleol i gyfrif am ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd (e.e. pa un a ddylai corff ar gyfer tenantiaid awdurdodau lleol sy'n cyfateb i'r Panel Cynghori Tenantiaid fwydo i Swyddfa Archwilio Cymru)

*Ar gyfer y rhai hynny sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau (boed hynny i'r sector tai cymdeithasol neu o'i fewn fel landlordiaid tai cymdeithasol)*

- Monitro digwyddiadau a gweithgareddau sy'n cynnwys tenantiaid, lle y disgwylir iddynt ddylanwadu ar wasanaethau, polisi a strategaeth, o ran amrywiaeth a chynrychioldeb y bobl dan sylw
- Sicrhau bod fframwaith methodolegol wedi'i sefydlu ar gyfer gwerthuso canlyniadau pa ddull bynnag a ddefnyddir ar gyfer 'cyfranogiad tenantiaid'
- Ystyried gofyn i gwmnïau'r sector preifat (e.e. cwmnïau adeiladu/cynnal a chadw mawr) ddarparu cymorth ar gyfer hyfforddi tenantiaid

*Ar gyfer Tai Cymunedol Cymru a phartneriaid eraill*

- Archwilio sut y gallai lledaenu arfer gorau o ran mesur canlyniadau cyfranogiad gael ei rannu orau ymhlith landlordiaid tai cymdeithasol.

## Nodau'r adolygiad

1.54 Diben yr adolygiad, fel y'i hamlinellwyd yn y brîff a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, oedd, yn gyntaf, adolygu pa gymorth ariannol a chymorth arall sydd ei angen ar gyfer cyfranogiad tenantiaid effeithiol ym maes tai ar lefelau cenedlaethol a lleol. Yn ail, roedd yn ofynnol i'r adolygiad bennu sut y gellir cyflawni blaenoriaethau yn y maes hwn yn y dyfodol mewn ffordd effeithiol ac effeithlon.

1.55 Wrth wneud hyn, gofynnwyd i'r adolygiad ystyried a chynghori ar y canlynol:

- Egluro rôl Llywodraeth Cymru o ran cefnogi tenantiaid mewn cyd-destun tai
- Ystyried sut y gallai cymorth gael ei ddarparu ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y rôl y mae sefydliadau'n ei chyflawni ar hyn o bryd a'r rôl y gallent ei chyflawni wrth ddarparu'r cymorth hwn, yn enwedig landlordiaid cymdeithasol, y ddau sefydliad

cymorth i denantiaid a sefydliadau eraill y trydydd sector fel Cymorth Cymru, Tai Pawb, Tai Cymunedol Cymru ac unrhyw rai eraill a awgrymir gan y tîm ymchwil

- Adolygu rolau presennol y ddau sefydliad cymorth i denantiaid (Tenantiaid Cymru a'r Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS)), y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, unrhyw ddyblygu, a'r gwerth am arian a gynigiant.
- Archwilio pa un a fyddai un sefydliad cymorth i denantiaid yn briodol a sut y dylai hwn gael ei ffurfio, e.e. un o'r sefydliadau presennol neu sefydliad cwbl newydd.

## Methodoleg

1.56 Cynhaliodd y tîm ymchwil waith ymchwil desg a gwaith maes ansoddol. Goruchwyliwyd y dulliau ymchwil gan grŵp llywio a oedd yn cynnwys pum aelod. Cynhaliwyd yr holl ymchwil rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2013.

1.57 Er mwyn darparu cyd-destun ehangach ar gyfer yr astudiaeth hon, cynhaliodd y tîm ymchwil adolygiad o sut y mae cymorth ar gyfer cyfranogiad tenantiaid effeithiol yng Nghymru yn cymharu â'r cymorth a ddarperir yn Lloegr ac yn yr Alban; roedd hyn yn cynnwys adolygiadau desg o ddogfennau a chyfweliadau â gweision sifil allweddol yn y tair gwlad, yn ogystal â chyfweliadau â'r sefydliadau TPAS yn Lloegr ac yn yr Alban.

1.58 Roedd rhanddeiliaid eraill a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol yn cynnwys pobl a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â chefnogi ac arwain cyfranogiad tenantiaid effeithiol (boed hynny'n ddarparwyr cenedlaethol, sefydliadau ambarél, cymdeithasau tai neu randdeiliaid awdurdodau lleol), tenantiaid, cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, ac aelodau'r Panel Cynghori Tenantiaid. Cyfwelwyd Prif Weithredwyr a Chadeiryddion Tenantiaid Cymru a Gwasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru hefyd, yn ogystal â Chyfarwyddwr Sefydliad Tai Siartredig Cymru, ynghyd â dau o'i gydweithwyr.

1.59 Gwnaeth y tîm ymchwil gyfweld cyfanswm o 30 o randdeiliaid o ystod o sefydliadau, cyfweld neu arolygu 40 aelod o staff landlordiaid tai

cymdeithasol a chyfweld 8 tenant (ac eithrio aelodau'r Panel Cynghori Tenantiaid sydd wedi'u cynnwys ymhlith y 30 o randdeiliaid).

1.60 Hoffem ddiolch i'r holl randdeiliaid a roddodd o'u hamser i siarad â ni, ac i ymateb i'n hymgynghoriadau. Ysgrifennwyd yr adroddiad gan Campbell Tickell, ymgynghoriaeth dai sy'n gweithio yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:
Stacey Lewis
Yr Is-adran Polisi Tai
Llywodraeth Cymru
Rhyd-y-car, Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Rhif ffôn: 0300 062 8562
Ffacs: (01685) 728006
E-bost:Stacey.Lewis@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2014
ISBN: 978-1-4734-1040-1